GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol 20/02

## 21 Ionawr 2020

**I'w weithredu gan y canlynol:**
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwyr a Rheolwyr Ystadau a Chyfleusterau, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Er gwybodaeth yn unig:**
Pennaeth Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Annwyl Gydweithiwr

**CONCRIT AWTOCLAFEDIG WEDI'I AWYRU A'I ATGYFNERTHU (RAAC) YN ADEILADAU'R GIG**

Daeth perygl methiannau estyll RAAC i sylw Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2019.
Yn dilyn hynny, cafodd Byrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd wybod am y mater trwy SESN 19/11 (ar gael **YMA**) ac roedd yn ofynnol iddynt bennu a oes unrhyw estyll RAAC yn bresennol yn eu hadeiladu.

Mae ymarferion tebyg yn cael eu cynnal ledled y DU ac mae adroddiadau cynnar a dderbyniwyd gan NHS England wedi nodi rhai enghreifftiau o'r defnydd o estyll RAAC mewn adeiladau gofal iechyd.

Mae adborth yn lleol gan Fyrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd wedi cadarnhau'r heriau wrth roi'r cyngor yn SESN 19/11 ar waith a natur lafurus yr ymarfer. Rydym wedi cael ar ddeall bod nifer o Fyrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd wedi cyflogi peirianwyr strwythurol i gefnogi'r gwaith hwn gyda chomisiynau yn cychwyn ym mis Ionawr 2020.

Mae'r gwaith wedi mynd yn ei flaen yn dda yn nifer o Fyrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd ond rydym yn deall mai dim ond Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sydd wedi cwblhau ei adolygiad hyd yn hyn.

Yn dilyn cwblhau eich adolygiad, a allech chi gysylltu â Nigel Davies, Is-gyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC (ond dim hwyrach na 31 Mawrth 2020), gan gadarnhau sefyllfa eich Bwrdd / Ymddiriedolaeth Iechyd.

Yr eiddoch yn gywir,



**NH Davies BSc (Anrh), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIOB, FIHEEM**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC, Trydydd Llawr, Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UB**

Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Specialist Estates Services Notification 20/02

## 21 January 2020

**For action by:**
Chief Executives, Local Health Boards and NHS Trusts
Estates/Facilities Directors and Managers, Local Health Boards and NHS Trusts

**For information only:**
Head of Capital Estates and Facilities Department of
Health and Social Care, Welsh Government

Dear Colleague

**REINFORCED AUTOCLAVED AERATED CONCRETE (RAAC) IN NHS BUILDING CONSTRUCTION**

This risk of failure of RAAC planks first came to the attention of NWSSP-SES in November 2019. Health Boards / Trusts were subsequently notified of the issue through SESN 19/11 (available **HERE**) and were required to determine whether any RAAC planks are present within their buildings.

Similar exercises are being undertaken across the UK and early reports received from NHS England have identified some examples of the use of RAAC planks in healthcare buildings.

Feedback locally from Health Boards / Trusts has confirmed the challenges with applying the advice in SESN 19/11 and the time-consuming nature of the exercise. We have been informed that a number of Health Boards / Trusts have engaged structural engineers to support this work with commissions commencing in January 2020.

Good progress has been made by a number of Health Boards / Trusts but, to date, we understand that only Cwm Taf Morgannwg University Health Board has fully completed its review.

Consequently could you please contact Nigel Davies, Deputy Director, NWSSP-SES on completion of your review (but no later than 31st March 2020), confirming the position of your Health Board / Trust.

Yours sincerely,

**NH Davies BSc (Hons), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIOB, FIHEEM**
**Director Specialist Estates Services**
**NWSSP Specialist Estates Services, 3rd Floor, Companies House, Crown Way, Cardiff CF14 3UB**